



Wythnos 11: Salm 121

#addewidagobaith #hopeandpromise



Cân Salm 121

Dyrchafaf fy llygaid i'r
mynyddoedd, o'r lle y
daw fy nghymorth.
Fy nghymorth a ddaw
oddiwrth yr Arglwydd, yr
hwn a wnaeth nefoedd a
daear.

Ni ad efe i'th droed
lithro; ac ni huna dy
geidwad.

Wele, ni huna ac ni
chwsg ceidwad Israel.

Yr Arglwydd yw dy
geidwad; yr Arglwydd yw
dy gysgod ar dy
ddeheulaw.

Ni'th dery yr haul y dydd
na'r lleuad y nos.


Yr Arglwydd a'th geidw
rhag pob drwg; efe a
geidw dy enaid.

Yr Arglwydd a geidw dy
fynediad a'th ddyfodiad,
o'r pryd hwn hyd yn
dragwydd.



Mae Salm 121 yn disgrifio'r
siwrne peryglus, hir, roedd yr
Isreiliaid yn ei wneud wrth
deithio i Jeriwsalem. Roedd
hyn yn daith flynyddol
fel iddynt allu mynd i'r deml i
addoli Duw. Taith â oedd a
dipyn o sialens iddynt ac
roedd canu salm 121 ar y
ffordd yn helpu i godi eu
calonnau.

*Yr
Arglwydd
a'th
geidw
rhag pob
drwg; efe
a geidw
dy enaid.
Salm
121:7*



Efallai mai un siwrnai i ni ei
wneud ar ben ein hunain am y
tro cyntaf yw i fynd i'r ysgol
neu i'r siop leol.


Dilynwch y linc yma i weld ffilm lle mae
plant yn trafod eu siwrnai cyntaf ar ben eu
hunain, ac yn rhannu eu hawgrymiadau da
ar sut i gadw'n ddiogel.

Gallwn ddysgu llawer o salm 121. Mae gan pawb bethau anodd yn ein bywydau lle gallwn ymddiried yn ddiogelwch a cariad Duw. Beth bynnag y broblem, gallwch ymddiried bod Duw yna wrth eich ochr yn eich helpu i fod yn gryf ac yn ddewr.

Efallai hoffwch ddyfalu eich bod yn ymlacio ar ôl siwrnai hir, anodd.

Adeiladwch dent neu creu den.

Beth allwch chi ddefnyddio i'w hadeiladu? Beth am i chi baratoi picnic a pacio bag ar gyfer eich siwrnai?




Sut gall hwn gysylltu â cwricwlwm yr ysgol?



Drwy ddatblygu'r sgiliau i fod yn unigolion hyderus sy'n gallu darganfod y wybodaeth a'r cymorth i gadw'n ddiogel ac yn iach.

Follow us on twitter @churchinwales



@diostasaphedu

@pobldewi

@esgobaethbangor

@llandaffed

@swanbreced

@apmdaly